

Cyngor Cymuned Llanystumdwy

Cofnodion Rhaglen waith y Cyngor - nos Iau, 7fed o Hydref 2021 drwy Zoom yn brydlon am 7:30 o'r gloch i drafod Prosiect Ardal Ni 2035, ac yna y prif cyfarfod am 8:15 o'r gloch.

Cynhaliwyd y cyfarfod hwn o bell gan ddefnyddio technoleg, ac roedd yn bosib cael mynediad i'r cyfarfod drwy gysylltu ar ebost gyda'r Clerc.

Yn bresennol drwy 'Zoom': Y Cynghorwyr Tegid Jones (Cadeirydd), Angela Williams, Aled Evans, Margaret Griffith, Gareth O.Davies, Trefor Wyn Jones, Thomas Prys Jones, Sion Aled Jones, a'r Clerc.

1. Ymddiheuriadau: Aled Davies, Williams Ifor Hughes wedi cael trafferth hefo'r linc 'Zoom' i'r prif gyfarfod, Darren Morley, Naomi Jones, Anwen Jones, Sian Angharad Parry, a Ceri Jones.
2. Cyflwyno a chadarnhau cofnodion cyfarfod y Cyngor gynhaliwyd ar 2 o Fedi 2021. (Y Clerc wedi trefnu i'r Cadeirydd lofnodi ei bod yn gywir).
3. Llofnodi cadarnhâd taliadau BACS mis Medi 2021 - (Roedd y Clerc wedi trefnu i'r Cadeirydd ei llofnodi ar 06.10.2021).
4. **Datgan buddiant personol**, - neb (Clerc wedi anfon copi electroneg at bawb cyn y cyfarfod).
5. **Materion gan Cyngor Gwynedd**

Rhaglen Waith Trafnidiaeth a Priffyrdd mis Medi/Hydref 2021 – derbyn.

Rhif y Ffordd	Lleoliad Gwaith	Disgrifiad o'r Gwaith	Gwasanaeth
B4411	Glandwyfach – Rhoslan 40mya	Clytwaith	Priffyrdd
	Llwyn Helyg, Llanybi	Draeniad	Priffyrdd
	Cefn Rhosgyll, Llanybi	Gwaith cerbio	Priffyrdd
	Penrallt, Llanystumdwy	Gwaith gosod slyri ar droedffordd	Priffyrdd

6. Cyngor Gwynedd - ceisiadau cynllunio yn y gymuned

a) **Rhif cais:C21/0827/41/LL - Gorsaf Llanybi, Llanybi, Gwynedd** - agor mynedfa amaethyddol. **Cefnogi.**

b) **Cais rhif:C21/0806/41/LL - Fferm Cefn Uchaf, Garndolbenmaen** - sied amaethyddol ar gyfer cadw anifeiliaid. **Cefnogi.**

c) **Cais rhif:C21/0885/41/LL - Llwyn Gwyn, Llangybi, Pwllheli** - codi storfa dail a gwaith cysylltiedig. **Cefnogi.**

ch) **Cais rhif:C21/0901/41LL - Pant Y Rhos Ffordd Rhoslan, Rhoslan** - newid defnydd cae i safle glampio 3 pabell/ yurt, darpariaeth parcio, chodi bloc toiledau /cawod newydd a tanc trin carthion cysylltiedig. **Peidio rhoi barn ond mae angen ystyried fod y ffordd yn gul iawn a gwelediad yn anodd o bob ochr i Bant y Rhos a bod loriau mawr a thraffig trwm ar hyd y ffordd yn gyson.**

d) **Cais rhif: C21/0921/41/TC - Gernant Bach, Llangybi, Pwllheli** -defnyddio Gernant Bach fel tŷ preswyl C3 hunan gynhaliol ar wahân. **Dim gwrthwynebiad.**

dd) **Cais rhif: C21/0956/41/DT: Talafon, Pencaenewydd, Pwllheli** - dymchwel estyniadau presennol ac adeiladu estyniad unllawr newydd i'r blaen a chefn yr annedd. **Cefnogi.**

7. **Fframwaith Adfywio Cyngor Gwynedd - Ardal Ni 2035** - derbyniwyd ebost 11.08.21 gan Swyddog Cefnogi Cymunedau (Ardal Dwyfor). Roeddent wedi adnabod 13 ardal yng Ngwynedd ac mae dalgylch Cyngor Llanystumdwy yn rhan o ardal Pwllheli. Bydd yn cynorthwyo cymunedau i adnabod a gwireddu'r hyn sydd yn bwysig i drigolion, a'r materion hynny fydd angen sylw yn y 10-15 mlynedd nesaf i wella'r economi, amgylchedd, materion cymdeithasol a diwylliannol. Roedd angen cofnodi ymateb y Cyngor Cymuned.

Fe gynhaliwyd cyfarfod o flaen y prif bwyllgor, 07.10.2021 drwy 'zoom', gyda 9 Cynghorydd yn bresennol. Trafodwyd y materion isod, ac fe gytunwyd enwebu'r Cynghorwyr Tegid Jones, Angela Williams, Sion Aled Jones, a gofyn wrth Aled Davies a'r Clerc i drafod ymhellach hefo Alys Lloyd Jones, Swyddog Cefnogi Cymunedau nos Lun, 25.10.2021 am 7:30 y.h.

Dyma'r prif bwyntiau a drafodwyd ar y noson.

1. **Yn gyffredinol, sut ydych chi'n teimlo am ardal Pwllheli fel lle i fyw ar hyn o bryd:**

a. Beth sy'n dda am yr ardal? (hyd at 5 peth)

i) Mae'r ardal yn gymuned agos iawn.

ii) Mae'r ganran sydd yn siarad Cymraeg yn uwch yn ein ardal.

iii) Mae'r mesuriadau ardal Pwllheli yn uwch ar y cyfan na gweddill Gwynedd a Chymru.

iv) Cysylltiad agos rhwng ysgolion/capeli yn yr ardal a threfnu gweithgareddau lleol yn y gymuned.

b. Beth sydd ddim mor dda am yr ardal? (hyd at 5 peth)

i) Ymddygiad gwrthgymdeithasol yn enwedig ym Mhwllheli yn ddiweddar/dim digon o bresennoldeb heddwision.

ii) Dim digon o fysiau yn mynd drwy ardaloedd gwledig, e.e. drwy Llangybi, dim ond 2 waith yr wythnos ar hyn o bryd.

iii) Gormod o dai haf yn yr ardal.

iv) Prisiau tai wedi codi'n afresymol yn yr ardal.

v) Mae gwerth swyddi a chyflogau uchel yn isel yn yr ardal, felly mae llawer o ieuenctid yr ardal yn symud i fyw i ardaloedd eraill/hefyd mae oedran poblogaeth cefn gwlad yn mynd yn hŷn felly llai o deuluoedd ifanc yn cael cyfle i brynu tai a magu teulu.

2. Dychmygwch yn y flwyddyn 2035 eich bod yn byw yn yr ardal ddelfrydol. Beth fyddai wedi newid er mwyn i hyn ddigwydd? (adnabod 3-5 maes blaenoriaeth. Wrth ddod i'ch casgliad, mae croeso i chi ystyried yr ystadegau a'r penawdau yn y ddogfen 'Sut le ydi Pwllheli' oedd hefo'r e-bost 11/08)

i) Mae angen rheolaeth dros dai haf – neu dros gael ail a thrydydd tŷ.

ii) Mae angen i Cyngor Gwynedd adeiladu mwy o dai fforddiadwy.

iii) Mae angen denu diwydiant yma er mwyn cadw pobl ifainc yma.

iv) Mae angen adeiladu tai mewn ardaloedd cefn gwlad hefyd, nid yn unig yn y trefi, er mwyn cadw teuluoedd ifanc yma.

v) Mae angen denu mwy o ddiwydiant a dim creu gor ddibyniaeth ar dwristiaeth fel ag sydd yn bodoli ar hyn o bryd.

3a. Pwy yw'r prif sefydliadau a grwpiau fyddai'n gallu dod at ei gilydd i gyflawni'r newidiadau sydd eu hangen?

i) Cyngor Gwynedd a Llywodraeth Cymru yn gyntaf.

ii) Swyddogion ddylai chwilio am grwpiau i wireddu rhain.

iii) Ffermwyr Ifanc/Llywodraethwyr ysgolion

b. Ydych chi'n ymwybodol o unrhyw waith ymgynghori lleol sydd wedi digwydd yn y flwyddyn ddiwethaf?

i) Un Llais Cymru efallai?

ii) Cynghorau cymuned a thref yn gweithredu ar ran y gymuned, e.e. creu deiseb i ddangos faint o alw oedd gan y gymuned i gael e.e. llwybr rhwng Chwilog ac Afonwen.

8. Cais i gefnogi'r alwad ar Lywodraeth Cymru i reoli'r farchnad dai – gan Cymdeithas yr Iaith - un o aelodau Cymdeithas yr Iaith, yn bwriadu beicio o Gaernarfon i Gaerdydd rhwng 11 a 13 Tachwedd 2021 i dynnu sylw at yr argyfwng tai sydd yn effeithio ar gymunedau ar draws Cymru. Roeddent wedi anfon copi o lythyr yn gofyn i'r Cyngor drafod y llythyr yn ein cyfarfod gan ei hybysu os ydi'r Cyngor eisau ychwanegu ei enw i'r llythyr. Gellir gwneud hynny fel cyngor neu gall gynghorwyr unigol hefyd ychwanegu eu henwau. Bydd y llythyr wedyn yn cael ei gyflwyno - gydag enwau'r holl lofnodwyr - i gynrychiolydd o Lywodraeth Cymru fel rhan o rali Nid yw Cymru ar Werth a gynhelir y tu allan i Senedd Cymru ar bnawn Sadwrn, 13 Tachwedd. **Cefnogi.**

9. Comisiwn Ffiniau i Gymru - adroddiad 'Cynigion Cychwynnol' ar gyfer etholaethau Seneddol newydd Cymru. Mae'r adroddiad a'r mapiau perthnasol ar gael ar wefan y

Comisiwn ar: <https://comffin-cymru.gov.uk/tudalen/arolwg-seneddol-2023-cynigion-cychwynnol>. Mae angen ymateb cyn 03.11.2021. Dyma'r sylwadau a dderbyniwyd i'w hanfon cyn 03.11.2021.

1. Dylai egwyddorion pwysicach o ran cael cynrychiolaeth deg i'r etholwyr gael eu hystyried yn hytrach nag obsesiwn efo cysoni ystadegau.
2. Nid yw cael etholaethau 'cyfartal' o ran niferoedd yn golygu bod yr etholwyr yn cael eu trin yn gyfartal ledled y wlad. Yn gyffredinol: dylai nodweddion daearyddol, ac o ganlyniad, rhwyddineb teithio ac ymwneud cymdeithasol (a thraddodiadol) rhai ardaloedd a'i gilydd fod yn ystyriaethau pwysig wrth ad-drefnu'r ffiniau.
3. Yn gysylltiedig â'r ystyriaethau uchod ni ddylid rhoi baich gwaith/pwysau ychwanegol ar aelodau etholedig mewn rhai etholaethau wrth i'r rheiny gael eu ehangu'n ddaearyddol; wrth gwrs dylid tafoli effaith hynny ar yr etholwyr eu hunain hefyd wrth iddynt geisio cael cyswllt personol gyda'r aelod etholedig. Dylid ystyried hyn mewn cymhariaeth â gofynion teithio/cyfathrebu mewn etholaethau poblog sy'n ddaearyddol fychan ond sydd yn debygol o fod a darpariaethau trafndiaeth eang a hwylus.
4. Dylid ystyried wardiau ac etholaethau yn ôl maint y boblogaeth sefydlog sy'n trigo ynddynt, h.y. y rhai sy'n gymwys i bleidleisio, ac nid yn ôl nifer yr etholwyr sy'n cofrestru i bleidleisio. Mater i'r unigolyn ar y dydd yw pleidleisio neu beidio.
5. Mae hyn yn berthnasol i etholiadau Senedd Cymru, ac yn enwedig os oedd penderfyniad i gynyddu nifer yr aelodau. Awgrymu na ddylid gosod trefi agos (fel Caernarfon a Bangor) yn yr un etholaeth, er mwyn cyrraedd y niferoedd poblogaeth y byddai angen. Mae hynny o reidrwydd yn creu etholaethau gwledig mawr fel Dwyfor Meirionydd (eto -llunio er mwyn cael y niferoedd).

10. Ymgynghoriad Adroddiad Blynyddol Drafft Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol - Chwefror 2022 – angen sylwadau cyn 26.11.2021.

Mae Adran 13 yn ymwneud yn benodol â Chynghorau Tref a Chymuned. Mae'r penderfyniadau drafft ar gyfer 2022 - 2023 yn cynnwys:

- Grwpiau Cynghorau Tref a Chymuned – sefydlwyd pum grŵp yn seiliedig ar faint etholaeth y cyngor, gan ddisodli'r tri grŵp presennol.
- Parhau i roi'r taliad gorfodol o £150 fel cyfraniad at gostau a threuliau ar gyfer aelodau cynghorau tref a chymuned, ac eithrio'r cynghorau yng Ngrŵp 5 lle bydd yn ddewisol.
- Cyflwyno lwfans presenoldeb sy'n ddewisol ar gyfer pob Cyngor.
- Gweithredu penderfyniadau'r Panel

Ar gyfer y cyfnod 01.04.22 i 08.05.22, bydd yr holl benderfyniadau yn Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol 2021/2022 yn parhau i fod yn berthnasol mewn perthynas â phrif gynghorau a chynghorau tref a chymuned.

O'r 09.05.22, bydd y penderfyniadau a amlinellwyd yn yr Adroddiad hwn yn berthnasol i brif gynghorau a chynghorau tref a chymuned. **Derbyn.**

11. Ymgynghoriad ar ddefnydd peryglus cychod dŵr hamdden a phersonol (yn enwedig 'jet skis')

Cyhoeddwyd ymgynghoriad gan yr Adran Drafndiaeth ar ddeddfwriaeth newydd i gryfhau gorfodaeth ar ddefnydd peryglus cychod dŵr hamdden a phersonol.

Mae'r ddeddfwriaeth newydd wedi'i chynllunio i gymhwyso deddfwriaeth llongau masnach ehangach berthnasol i ddefnyddwyr cychod dŵr hamdden a phersonol sy'n fwriadol, neu'n esgeulus, yn camddefnyddio neu'n peryglu diogelwch eraill.

Yn ogystal a hyn, derbyniwyd llythyr gan Liz Saville Roberts A.S., yn annog y Cyngor i ymateb i'r ymgynghoriad, cyn 01.11.21. **Cefnogi.**

12. **Llythyr gan Senedd Ieuenctid Cymru** yn annog Cyngorwyr i holi pobl ifanc yr ardal a fyddai'n gymwys i gofrestru i bleidleisio yn yr etholiadau ar-lein. Bydd 40 o'r 60 aelod o Senedd Ieuenctid Cymru yn cael ei dewis drwy etholiadau cenedlaethol, ac mae'r wybodaeth yma wedi cael ei rannu ymysg ysgolion a cholegau yn barod. **Derbyn y wybodaeth, a rhannu'r ebost hefo Trefnydd y Clybiau Ifanc.**

Materion yn y gymuned.

13. **Arwyddion dim ysbwriel drwy'r gymuned** – y Clerc wedi gwrandao ar 'Webinar Un Llais Cymru a Chadw Cymru'n Daclus ar 15.09.21.

"Rhaglen Caru Cymru Cadwch Gymru'n Daclus – sut all Cyngorau Cymuned a Thref gymryd rhan..."

Y prif bwyntiau oedd fod Caru Cymru yn cael ei ariannu gan Ewrop a Senedd Cymru tan Mehefin 2023.

- Ceisio cael grwpiau o 8-10 aelod drefnu i gasglu sbwriel yn wirfoddol tua unwaith y mis.
- Mae'n bosib cael ysgolion i fod yn rhan o'r cynllun, ond fod yn rhaid cael oedolyn yn bresennol, a gellir trefnu i gynnal sgysiau ar sut i edrych ar ol yr ardal.
- Dweud fod sbwriel yn tueddu i ddenu mwy o sbwriel.
- Cynlluniau i fusnesau lleol osod sticeri mewn ffenestri e.e.sector bwyd i wahardd sbwriel.
- Gofyn wrth fusnesau ofalu am ardaloedd arbennig ac i brynu offer codi sbwriel e.e.siopau i ofalu am feysydd parcio.
- Fod arbrogion lleol yn cael ei cynnal, gan Swyddog Prosiect, Cyngor Gwynedd i dargedu ardaloedd unigol, e.e.problemâu ysmegu, gwydr. Hefyd ei bod yn cysylltu'n uniongyrchol hefo ysgolion os oes problem yn yr ardal.
- Dweud fod ymgyrch cenedlaethol ar fin cychwyn ar draws Cymru, a byddant yn gosod sticeri a phosteri yma ac acw.
- Bydd ymgyrch am faw cwn yn digwydd o fewn yr wythosau nesaf.
- Ymgyrch i dynnu sylw at broblem 'tipio slei bach' tuag ddiwedd 2021.
- Ymgyrch sbwriel ar ochr y ffordd yn digwydd Gwanwyn 2022.
- Anodd dirwyo pobl sydd yn gadael sbwriel.
- Adran Seicoleg, Prifysgol Caerdydd yn gwneud ymchwil i ymddygiad pobl, a pham ei bod yn taflu sbwriel, drwy gasglu data ar ei ymddygiad er mwyn ceisio newid y sefyllfa.
- Fod biniau yn bethau drud iawn, ac mae pobl yn taflu pob math o bethau iddynt, a chreu llanast o'i cwmpas ar lawr, yn enwedig mewn mannau lle mae llawer o dwristiaid.

Y Clerc wedi anfon ebost yn gofyn am posteri ganddynt i weld beth sydd ar gael ond heb gael ateb eto. Derbyn.

14. **Meddygfa Cricieth** – derbyniwyd gwybodaeth fod gan Meddygfa Cricieth drefn o orfod ciwio y tu allan pan mae apwyntiad ganddynt i weld meddyg/nyrs. Nid yw'n wybyddus os y bu unrhyw newid yn hyn yn ddiweddar, ond os yw'n dal i fodoli mae'n drefn anffodus pan mae'r tywydd yn ddrwg ac felly angen i'r Cyngor drafod y mater. Hefyd, fod problemau wrth ffonio i wneud apwyntiad, sef ei fod yn dweud fod e.e. 6 yn y ciw i gael ateb, ac yn neidio i fod yn 20 wedyn. **Gofynnwyd i'r Clerc wneud ymholiadau.**

15. **Llanystumdwy**

a) **Parcio gyferbyn tai Maen y Wern ac i fyny am Tŷ Newydd** – problem fod trigolion sydd yn byw yn y tai yn parcio ar y lon gul yn ei gwneud yn anodd i gerbydau basio. Y Clerc wedi anfon llythyr at Cyngor Gwynedd yn gofyn am y posibilrwydd o gael llinellau melyn yno, ond heb gael ymateb. **Angen holi eto.**

b) **Afon Llanystumdwy** – derbyniwyd sylwadau mai un darn o bren oedd yn croesi'r ffos gyntaf ar hyd y llwybr ger yr afon, ar ol pasio'r Bedd. Mae'n debyg fod dau ddarn coedyn ('slipan lein') yno cynt. Hefyd, nodwyd fod coeden wedi prydro ac yn pwyso ar goeden arall gerllaw. **Angen i'r Clerc holi.**

c) **Cais i arafu traffig o'r A497 o gyfeiriad Cricieth i Lanystumdwy** – derbyniwyd llythyr (ar 02.09.21) gan un o drigolion Llanystumdwy yn cyfeirio at y ffaith fod problem o draffig trwm yn creu perygl ar hyd y lon. Dywedwyd fod troi i mewn i'r pentref, yn peryglu bywyd yn rheolaidd gan fod gyrwyr tu ol y rhes traffig yn tynnu allan i oddiweddyd heb edrych os yw'r ceir o'u blaenau yn arafu i droi i mewn i'r pentref. **Roedd y mater wedi cyrraedd yn rhy hwyr ar gyfer y cyfarfod diwethaf, felly gofynwyd i'r Clerc anfon llythyr ymlaen at Cyngor Gwynedd yn cefnogi cynnwys y llythyr a dderbyniwyd yn cyfeirio ar berygl y sefyllfa fel ag y mae rwan.**

16. **Rhoslan/Ynys**

17. **Chwilog**

a) **Parcio yn Chwilog** – pryder oherwydd y cynnydd mewn tai yn y pentref, ac y bydd yn anodd parcio yno pan fydd pethau yn cael ei cynnal yn y capeli a'r neuadd. Y Clerc wedi anfon llythyr ac ebyst at Cyngor Gwynedd i holi os yw'n bosibl datrys y broblem, ac iddynt ystyried y posibilrwydd o ddefnyddio lle tu nol i'r rhes o dai ger y Madryn, ac efallai ddarn o'r cae ger Ael y Bryn, -dal i ddisgwyl ymateb. **Angen cysylltu eto i ofyn am sylwadau.**

b) **Garej Pandy** - wedi derbyn cwynion ynglŷn â'r sefyllfa cerbydau yn parcio yno ymhobman ar ochr y lon, oherwydd ei bod yn ei gwneud yn beryglus i bobl sydd yn ymweld, cerdded a gyrru heibio'r safle. Mae prysurdeb mawr yno ac mae'n beryglus ar lon mor brysur. **Y Clerc yn disgwyl ateb.**

18. **Pencaenewydd/Sardis**

a) **Safle pasio, 'lay by'** - y Clerc wedi gofyn wrth Cyngor Gwynedd am fwy o safleoedd pasio i gerbydau rhwng Sardis i Pensarn, Mynachdy Bach ac i'r tro am Llanaelhaearn. **Y Clerc wedi derbyn yr ymateb yma ar yr 02.07.2021 gan yr Adran Priffyrdd.**

"Ymddiheuraf am yr oedi mewn ymateb ond fe ddaw swyddog mewn cyswllt gyda chi cyn gynted a bo'r gwaith arwisgo wedi cael ei gwblhau."

19. Rhwng Coed Tanllyn a Drofa, Pencaenewydd – coeden yn pwyso ar y linnell ffon. Y Clerc wedi cysylltu hefo Cyngor Gwynedd ac wedi derbyn yr ymateb isod yn dweud fod swyddog o Cyngor Gwynedd,

"wedi bod yn cael golwg ar y safle ond does dim angen gweithred ar hyn o bryd, lluniau "Google Street View" yn dangos dim gwahaniaeth yn y goeden yma ers 2009". **Derbyn.**

20. **Llangybi**

Cae chwarae - yr Is-gadeirydd wedi cadarnhau y bydd wedi trefnu i'r matiau gael ei gludo yn ystod y mis. **Derbyn.**

21. Materion Ariannol

Adroddiad Ariannol gan y Clerc a'r Swyddog Ariannol Cyfrifol.

Roedd y Clerc wedi anfon ebost at y cynghorwyr i gyd cyn y cyfarfod, drwy gynnwys dogfen 'excel' o'r sefyllfa ariannol hyd at 07.10.2021, a rhagolwg o faint fydd wedi ei wario erbyn Ebrill 2022. Mae hyn yn cadw golwg fanwl ar y gwariant sydd eisioes wedi ei wneud.

22. Treth ar werth - y Clerc wedi hawlio £207.48 o'r flwyddyn 01.04.20 - 31.03.21 ar 02.09.2021. Derbyn.

23. 'Diffibiwleiddwyr yn y gymuned' - derbyniwyd ebost gan Elusen Calon yng Nghymru. Maent yn cynnig gwasanaeth i Gynghorau Cymru i wneud yn siwr fod ganddynt ddigon o ddarpariaeth 'deffib', ac yn ail yn gofalu am gynnal a chadw'r rhai sy'n bodoli'n barod yn y gymuned. Maent yn dweud fod ganddynt swm bach o arian i gynorthwyo talu am ran o'r arian i'w cynnal, mewn rhai achosion, oherwydd ei bod yn ddrud i adnewyddu y 'bateri/padiâu'. Maent hefyd yn cynnig grant o £300.00 tuag at osod un newydd, drwy'r Loteri Cenedlaethol. Gofynwyd i'r Clerc anfon manylion yr ebost ymlaen at yr unigolion sydd yn gyfrifol amdanynt o fewn y gymuned.

24. Taliadau BACS angen cael ei gwneud yn dilyn y cyfarfod 07.10.2021:

Enw/Rheswm	Rheswm	Pris £	TAW	Cyfanswm Taliad £	Taliad BACS £
Cyngor Gwynedd (007950C0014690M)	Archwilio mewnol ar gyfer cyfrifon 2020/21	<u>160.00</u>	<u>32.00</u>	<u>192.00</u>	<u>192.00</u>
Clifford Hughes (35)	Traeth Afonwen Ynysgain Bach Tŷ Newydd Bontfechan- Ty'n Morfa	<u>110.00</u> <u>97.00</u> <u>103.00</u> <u>116.00</u>		<u>426.00</u>	<u>426.00</u>

Cyflog mis Medi 2021 y Clerc i'w rannu rhwng y Clerc a Chyllid a Thollau EM.

Enw/Rheswm	Swm £	Cyfanswm Taliad net £	Taliad BACS :- £
Cyflog sylfaenol y Clerc, Medi 2021 35 awr y mis x £11.05 = £386.75	386.75 - Llai treth £77.40 = £309.35	<u>309.35</u>	<u>309.35</u>
Cyllid a Thollau EM Treth ar enillion y Clerc Medi 2021	387.00 x 20% = £77.40	<u>77.40</u>	<u>77.40</u>
Costau'r Clerc Medi 2021	£16.66	<u>16.66</u>	<u>16.66</u>

Bydd y cyfarfod nesaf ar nos Iau 04.11.2021.

Bydd y Cyfarfod Cyllid/Busnes yn cael ei gynnal 7:30 o flaen y prif gyfarfod ar 04.11.2021.

It is possible to get an English translation of any minute, please contact the Clerk.